

# Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

## Cais am gofrestru Atwrneiaeth Arhosol Canllawiau ar gyfer llenwi'r ffurflen gais AA2

Llenwch ffurflen AA2 mewn PRIFLYTHRENNAU gan ddefnyddio pin belen DDU, a chan sicrhau eich bod yn llenwi pob adran berthnasol yn glir. Bydd hyn yn golygu y gallwn brosesu'r wybodaeth yn gyflym ac yn gywir.

### Sylwch ar y wybodaeth ganlynol:

- Nid oes modd defnyddio ffurflen AA2 i gofrestru Atwrneiaeth Barhaus.
- Os ydych yn cofrestru mwy nag un AA, rhaid i chi llenwi **ffurflen AA2 ar wahân ar gyfer pob** AA rydych yn ei chofrestru.

---

## Rhan 1 – Y rhoddwr

Yn rhan un, ceisir y wybodaeth y mae ei hangen am 'roddwr' yr Atwrneiaeth Arhosol (AA) er mwyn ei chofrestru. Y rhoddwr yw'r sawl sydd wedi penodi atwrnai (atwrneiod) i reoli eu heiddo a'u materion ariannol neu eu lles personol wrth lunio'r AA yn y lle cyntaf.

I llenwi'r adran hon:

- Llenwch y blwch sy'n ymwneud â theitl y rhoddwr. Os nad yw'r teitl cywir yn ymddangos, rhowch yr un sy'n cael ei ddefnyddio yn awr yn y blychau a ddarperir ar y dde.
- **Sylwch:** Dylid rhoi cyfenw'r rhoddwr yn y llinell lle mae'n dweud, 'enw olaf'.
- **Sylwch:** Mae'r ddwy linell nesaf ar gyfer enw(au) cyntaf. Gwnewch yn siŵr mai dim ond enw cyntaf y rhoddwr a rowch chi lle mae'n dweud, 'Enw cyntaf'.
- Os yw'r rhoddwr yn byw mewn ysbyty neu gartref gofal, dylech roi enw'r ysbyty neu'r cartref yn lle mae'n dweud 'Cyfeiriad 1'.

# Office of the Public Guardian

## Application to register a Lasting Power of Attorney Guidance Notes for completing the application form LPA2

Please complete the form LPA2 in BLOCK CAPITALS using a BLACK ballpoint pen, ensuring that all relevant sections are completed clearly. This will enable us to process the information quickly and accurately.

### Please note the following information:

- Form LPA2 cannot be used for registration of an Enduring Power of Attorney.
- If you are registering more than one LPA you must complete a **separate form LPA2 for each** LPA you are registering.

---

## Part 1 – The donor

Part one covers the information we need about the 'donor' of the Lasting Power of Attorney (LPA) to register it. The donor is the person who has appointed an attorney/s to manage their property and affairs or personal welfare when first setting up the LPA.

To complete this, please:

- Fill in the box that relates to the donor's title. If the correct title does not appear, please provide the one now used in the boxes provided to the right.
- **Please Note:** The donor's surname should be inserted in the line where it says, 'last name'.
- **Please Note:** The next two lines are for forename/s. Please ensure that only the donor's first name is inserted where it says, 'Forename 1'.
- Where the donor is living in a hospital or care home, the name of this should be entered where it says 'Address 1'.

- Wrth gwblhau llinellau'r cyfeiriad, gwnewch yn siŵr bod enw'r dref neu'r ddinas yn ymddangos lle gofynnir am hynny.
- **Sylwch:** Dylech gynnwys cod post y rhoddwr yn y blychau a ddarperir ar ôl manylion y cyfeiriad.
- Os yw cyfeiriad y rhoddwr ar yr AA yn wahanol i'r un a ddangosir ar y ffurflen gais, rhowch y cyfeiriad gwreiddiol yn Rhan pump y ffurflen dan unrhyw wybodaeth ychwanegol a dweud bod y cyfeiriad wedi newid.
- Llenwch y blychau sy'n gofyn am ddyddiad geni'r rhoddwr, gan roi diwrnod, mis a blwyddyn y geni. Os nad ydych chi'n gwybod y dyddiad, dylech allu dod o hyd iddo yn yr AA, yn Rhan A dan enw a chyfeiriad y Rhoddwr. Os yw'r dyddiad geni'n wahanol i'r dyddiad sydd ar yr AA ei hun, esboniwch, os gallwch chi, y gwahaniaeth sydd yn Rhan 12 y ffurflen, a rhowch gopi o dystysgrif geni'r rhoddwr yn dystiolaeth.
- When completing the address lines, please ensure that the town or city appears where requested.
- **Please Note:** Include the donor's postcode in the boxes provided after the address details.
- If the donor's address on the LPA is different from the one that is shown on the application form, provide the original address in Part five of the form under any additional information and say that the address has changed.
- Complete the boxes requesting the donor's date of birth, putting the day, month and year of birth. If you don't know this, you should be able to find it in the LPA, in Part A under the Donor's name and address. If the date of birth differs from the date stated on the LPA itself, please explain, if you are able, the difference in Part 12 of the form and provide a copy of the donor's birth certificate as evidence.

## Rhan 2 – Y sawl sy'n gwneud y cais

Mae'n bwysig iawn i SGC wybod pwy sy'n gwneud cais am gofrestru'r AA. Mae rhan dau'r ffurflen yn dweud wrthym pwy sy'n gwneud cais am gofrestru'r AA. Efallai mai'r rhoddwr, yr atwrnai (atwrneiod) neu rywun arall a benodwyd i wneud y cais fydd hwnnw/honno. Caiff y rhoddwr neu'r atwrnai (atwrneiod) wneud cais am gofrestru.

- Os mai chi yw'r rhoddwr neu os ydych chi'n cynrychioli'r rhoddwr sy'n gwneud cais, rhowch X yn y blwch wrth ymyl y datganiad sy'n dweud – 'Ai'r rhoddwr sy'n gwneud cais am gofrestru'r Atwrneiaeth Arhosol?'
- Os mai chi yw'r atwrnai neu rywun sy'n cynrychioli'r atwrnai sy'n gwneud cais, rhowch X yn y blwch wrth ymyl y datganiad sy'n dweud – 'Ai'r atwrnai sy'n gwneud cais am gofrestru'r Atwrneiaeth Arhosol?'
- Os penodwyd atwrneiod ar y cyd, rhaid iddynt wneud y cais ar y cyd.
- Os penodwyd atwrneiod i weithredu gyda'i gilydd ac fel unigolion, caiff un neu fwy nag un ohonynt wneud y cais.

## Part 2 – The person(s) making the application

It is very important for the OPG to know who is applying to register the LPA. Part two of the form informs us who is applying to register the LPA. It may be the donor, the attorney(s) or some other person appointed to apply. The application can be made by the donor or the attorney(s).

- If you are the donor or representing the donor applying please place an X in the box next to the statement that says – 'Is the donor applying to register the Lasting Power of Attorney?'
- If you are an attorney or representing an attorney applying please place an X in the box next to the statement that says - 'Is the attorney applying to register the Lasting Power of Attorney?'
- If joint attorneys have been appointed they must make the application jointly.
- If attorneys have been appointed to act jointly and severally one or more may make the application.

### Rhan 3 – Sut y penodwyd yr atwrnai (atwrneiod)?

Os oes mwy ag un atwrnai wedi'i benodi i weithredu, mae'n bwysig iawn inni wybod **sut** y cawsant eu penodi.

Gellir penodi atwrneiod i weithredu:

- Gyda'i gilydd, sy'n golygu na chaiff yr un ohonynt weithredu'n annibynnol (ar eu pen eu hunain): rhaid iddynt weithredu gyda'i gilydd, neu
- Gyda'i gilydd ac yn annibynnol, sy'n golygu y cânt i gyd weithredu gyda'i gilydd, neu y caiff un ohonynt weithredu'n annibynnol (ar ei ben ei hun); neu
- Ar y cyd ar gyfer rhai materion ac ar y cyd ac yn annibynnol ar gyfer materion eraill. Er enghraifft, efallai y bydd rhoddwr am i'w ddau atwrnai gydweithio gyda golwg ar werthu eiddo, ond am iddynt weithredu annibynnol (ar eu pen eu hunain) wrth reoli eu cyfrif banc.

Rhowch X yn y blwch priodol i ddangos sut y mae'r atwrneiod wedi'u penodi i weithredu.

Os yw'r atwrneiod wedi'u penodi i weithredu **gyda'i gilydd** (yn hytrach na gyda'i gilydd ac yn annibynnol) yna ni ellir defnyddio'r AA os bydd un o'r atwrneiod sy'n gweithredu ar y cyd:

- Yn marw;
- Yn ymwrthod â'i hawl i fod yn atwrnai neu'n gwrthod gweithredu, neu'n analluog i weithredu; neu
- Yn mynd yn fethdalwr (ar gyfer AA eiddo a materion ariannol)

### Rhan 4 – Yr Atwrnai (Atwrneiod)

Mae rhan 4 y ffurflen yn cofnodi'r wybodaeth y mae ei hangen arnom am yr atwrnai (atwrneiod) a benodwyd gan y rhoddwr. Rydym wedi rhoi lle i gofnodi manylion hyd at bedwar atwrnai. Fodd bynnag, os yw'r rhoddwr wedi penodi mwy na phedwar atwrnai, cofnodwch y manylion perthnasol yn Rhan 12 y ffurflen.

**Sylwch:** Bydd angen i chi nodi drwy roi X yn y blwch a ddarperir ai'r atwrnai sy'n gwneud y cais am gofrestru'r AA.

### Part 3 – How have the attorney(s) been appointed?

If more than one attorney has been appointed to act it is very important that we know **how** they have been appointed.

Attorneys can be appointed to act:

- Jointly, which means that none of them can act independently (on their own): they must act together; or
- Jointly and severally, which means that they may all act together, or one of them can act independently (on their own); or
- Jointly in respect of some matters and jointly and severally in respect of others. For example, the donor may want both of their attorneys to act together in relation to the sale of their property but want them to act independently (on their own) when managing their bank accounts.

Please place an X in the appropriate box to indicate how the attorneys have been appointed to act.

If attorney's have been appointed to act **jointly** (rather than jointly and severally) then the LPA cannot be used if one of the jointly acting attorneys:

- Dies;
- Disclaims his or her attorneyship, or refuses to act, or is unable to act; or
- Becomes bankrupt (for property and affairs LPAs).

### Part 4 – The Attorney(s)

Part 4 of the form records the information we need about the attorney(s) the donor has appointed. We have allowed space to record the details of up to four attorneys, however if the donor has appointed more than four attorneys then please record the relevant details in Part 12 of the form.

**Please Note:** You will need to indicate by placing an X in the box provided if the attorney is making the application to register the LPA.

- Os yw'r atwrnai a benodwyd yn broffesiynol, rhowch enw'r cwmni yn y llinell lle mae'n dweud 'Enw'r Cwmni'. Dylid llenwi gweddill y ffurflen fel o'r blaen;
- Fel rheol, dim ond cyfreithwyr fydd yn defnyddio'r blychau â'r teitlau 'DX' arnynt;
- Dylid rhoi dyddiad geni'r atwrnai yn y blychau a ddarperir, gan roi'r dydd, y mis a'r flwyddyn;
- Rhaid rhoi manylion swydd a manylion cysylltu'r atwrneiod, gan gynnwys rhifau ffôn, a'r cyfeiriad e-bost ar y ffurflen yn y blychau a ddarperir;
- Mae'n bwysig iawn esbonio'r berthynas rhwng yr atwrnai (atwrneiod) â'r rhoddwr drwy dicio'r blwch sy'n disgrifio'r berthynas orau.
- If it is a professionally appointed attorney, please put the name of the company in the line where it says 'Company Name'. The rest of the form should be completed as before;
- The boxes entitled 'DX' will usually only be used by solicitors;
- The attorney's date of birth should be entered in the boxes provided, putting day, month and year;
- The attorneys occupation and contact details including telephone numbers and e-mail address must be entered on the form in the boxes provided;
- It is very important to explain the relationship the attorney(s) have with the donor by ticking the box that best describes the relationship.

## Rhan 5 – Hysbysu'r bobl a enwyd

Mae'r rhan hon o'r ffurflen yn ymwneud â manylion y bobl hynny y mae'r rhoddwr wedi gofyn am iddynt gael eu hysbysu pan wneir cais am gofrestru'r AA.

**Sylwch:** Bydd angen i chi nodi a oes mwy nag un person wedi hysbysu'r sawl y mae'n rhaid eu hysbysu drwy roi X naill ai yn y blwch 'Yr wyf i' neu yn y blwch 'Yr ydym ni' a ddarperir.

- Rhowch fanylion yr enw a'r cyfeiriad yn y blychau a ddarperir. Os nad oes digon o le, rhowch y manylion yn Rhan 12 y ffurflen, neu rhowch ddalen ychwanegol yn sownd wrth ddiwedd y ffurflen hon gan farcio'n glir beth ydyw;
- **Sylwch:** Rhowch y cod post yn y blychau ar wahân a roddir ar ôl manylion y cyfeiriad;
- Rhowch yr **union ddyddiad pan anfonwyd yr hysbysiad at bob person** yn y blychau lle mae'n dweud 'Dyddiad Hysbysu'.

## Part 5 – Notification to named persons

This part of the form covers the details of those people the donor has requested be notified upon an application to register their LPA.

**Please Note:** You will need to specify if more than one person has given notice to the notifiable parties by placing an X in either the 'I' or 'We' boxes provided.

- Insert the name and address details in the spaces provided. If there is not enough room please provide the details in Part 12 of the form or attach an additional sheet to the end of this form clearly marking what it is;
- **Please Note:** Include the postcode in the separate boxes provided after the address details;
- Insert the **actual date that the notice was sent to each person** in the boxes marked 'Date Notice Given'.

## Rhan 6 – Gwybodaeth am Ffioedd

Os ydych am wneud cais am gael esemptiad rhag talu ffi, am ohirio neu am gael dileu'r ffi cofrestru, bydd angen i chi nodi hynny yn y blwch priodol.

Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen gais am gael esemptiad neu ddileu ffioedd hefyd.

Os mai gan SGC y cawsoch chi'r ffurflen gais ar gyfer cofrestru, byddwn wedi anfon y polisi atoch sy'n ymwneud ag esemptiad rhag talu ffioedd a dileu ffioedd. Fodd bynnag, mae copi ar gael ar ein gwefan yn [www.publicguardian.gov.uk](http://www.publicguardian.gov.uk)

## Rhan 7 – Math o bŵer

Gellir defnyddio'r ffurflen hon i wneud cais am gofrestru AA sydd naill ai ar gyfer Eiddo a Materion Ariannol neu ar gyfer Lles Personol. Nodwch ba fath o AA sy'n cael ei chofrestru a dyddiad ei llofnodi gan y rhoddwr.

**Sylwch:** Bydd angen i chi nodi a oes mwy nag un person yn gwneud cais am gofrestru'r AA drwy roi X naill ai yn y blwch 'Yr wyf i' neu yn y blwch 'Yr ydym ni' a ddarperir.

- Rhowch X yn y blwch i ddangos pa fath o AA rydych chi'n gwneud cais amdani;
- Rhowch y dyddiad pan lofnododd y rhoddwr yr AA;
- Hefyd, dywedwch, hyd y gwyddoch chi, a oes unrhyw Atwrneiaethau Arhosol neu Atwrneiaethau Parhaus eraill wedi'u gwneud, ac os felly, rhowch y manylion yn y blwch a ddarperir.

## Rhan 8 – Datganiad y rhoddwr

Dim ond os mai'r rhoddwr sy'n gwneud y cais am gofrestru'r AA y mae'r adran hon yn berthnasol. Y rhoddwr sydd i gadarnhau bod y cais yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r holl Reolau a'r Rheoliadau. Mae copïau o'r Ddeddf ar gael gan ganolfan cyswllt cwsmeriaid SGC.

- Rhowch ddyddiad llofnodi'r ffurflen yn y blwch sy'n dweud 'dyddiad'.

## Part 6 – Fee Information

If you want to apply for exemption, postponement or remission of the registration fee, you will need to mark the appropriate box.

You will also need to complete the exemption or remission application form.

If the registration application form was provided to you by the OPG, our fee exemption and remission policy will have been sent to you. However, you can obtain a copy from our web site at [www.publicguardian.gov.uk](http://www.publicguardian.gov.uk)

## Part 7 – The type of power

This form can be used to apply for registration of either a property or affairs LPA or a personal welfare LPA. Please indicate the type of LPA being registered and the date it was signed by the donor.

**Please Note:** You will need to specify if more than one person applying to register the LPA by placing an X in either the 'I' or 'We' boxes provided.

- Place an X in the box to denote which type of LPA is being applied for;
- Insert the date the donor signed the LPA;
- Please also indicate whether to your knowledge any other Lasting Powers of Attorney or Enduring Power of Attorney have been made, if there has please give details in the box provided.

## Part 8 – Declaration by the donor

This section only applies if the donor is making the application to register the LPA. It is for them to certify that their application complies with the provisions of the Mental Capacity Act 2005 and all the Rules and Regulations. Copies of this are available from OPG customer contact centre.

- Insert the date the form has been signed in the box marked 'dated'.

## Rhan 9 – Datganiad yr atwrnai (atwrneiod)

Dim ond os mai'r atwrnai sy'n gwneud y cais am gofrestru'r AA y mae'r adran hon yn berthnasol. Yr atwrnai sydd i gadarnhau bod y cais yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r holl Reolau a'r Rheoliadau. Mae copïau o'r Ddeddf ar gael gan ganolfan cyswllt cwsmeriaid SGC.

- Rhaid i bob atwrnai sy'n gwneud cais lofnodi a dyddio'r ffurflen yn y blychau a ddarperir.

Rydym wedi rhoi lle i gofnodi manylion hyd at bedwar atwrnai. Fodd bynnag, os yw'r rhoddwr wedi penodi mwy na phedwar atwrnai, cofnodwch y manylion perthnasol yn Rhan 12 y ffurflen.

## Rhan 10 – Datganiad gan gorfforaeth ymddiriedolaeth

Dim ond os mai corfforaeth ymddiriedolaeth sy'n gwneud y cais am gofrestru'r AA y mae'r adran hon yn berthnasol. Y gorfforaeth sydd i gadarnhau bod y cais yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r holl Reolau a'r Rheoliadau. Mae copïau o'r Ddeddf ar gael gan ganolfan cyswllt cwsmeriaid SGC.

- Rhaid i Gyfarwyddwr y gorfforaeth ymddiriedolaeth lofnodi a rhoi sêl y cwmni yn y blychau a ddarperir.

**Sylwch:** Os nad oes gan y gorfforaeth ymddiriedolaeth sêl, yna:

- Rhaid i ysgrifennydd y cwmni a Chyfarwyddwr lofnodi'r datganiad; neu
- Rhaid i ddau o gyfarwyddwyr cwmni lofnodi'r datganiad.

## Part 9 – Declaration by the attorney(s)

This section only applies if the attorney is making the application to register the LPA. It is for them to certify that their application complies with the provisions of the Mental Capacity Act 2005 and all the Rules and Regulations. Copies of this are available from OPG customer contact centre.

- Each attorney applying must sign and date the form the boxes provided.

We have allowed space for up to four attorneys to complete the declaration, however if there are more than four attorneys then please record the relevant details in Part 12 of the form.

## Part 10 – Declaration by a trust corporation

This section only applies if a trust corporation is making the application to register the LPA. It is for them to certify that their application complies with the provisions of the Mental Capacity Act 2005 and all the Rules and Regulations. Copies of this are available from OPG customer contact centre.

- A Director of the trust corporation must sign and company seal the boxes provided.

**Please note:** If the trust corporation does not have a seal then:-

- The company secretary and a Director must sign the declaration; or
- Two company directors must sign the declaration.

## Rhan 11 – Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth

**Sylwch:** Os gadewir yr adran hon yn wag, anfonir pob gohebiaeth naill ai at y Rhoddwr, os mai'r rhoddwr sy'n gwneud y cais, neu at atwrnai un a restrir ar yr AA2.

Mae'r adran hon ar y ffurflen yn gofyn am y cyfeiriad ar gyfer anfon yr holl ohebiaeth yn y dyfodol, yn ystod y broses cofrestru. Sylwch:

- Anfonir yr Atwrneiaeth Arhosol gofrestredig i'r cyfeiriad hwn;
- Fel rheol, dim ond i gyfreithwyr y bydd y manylion DX yn berthnasol;
- Dylid rhoi rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'r wybodaeth hon yn bwysig iawn a dylid gofalu i sicrhau ei bod yn cael ei llenwi'n gywir.

## Rhan 12 – Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r adran hon ar gyfer unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae ei hangen. Er enghraifft, os oes mwy na phedwar atwrnai (gweler Rhan 4) yna, dylid rhoi'r manylion ychwanegol yma.

**Os oes angen rhagor o help arnoch i lenwi'r ffurflen, ffoniwch 0845 330 2900**

**Dychwelwch y ffurflenni wedi'i llenwi at:**

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus  
Archway Tower  
2 Junction Road  
Llundain  
N19 5SZ

**Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar gyfer gwneud Atwrneiaeth Arhosol neu ysgwyddo rôl atwrnai ac mae'r rheini'n rhoi gwybodaeth am sut mae AAau yn gweithio ac ynglŷn â chyfrifoldebau'r atwrnai.**

Gellir cael copïau gan:

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus  
Archway Tower  
2 Junction Road  
Llundain  
N19 5SZ

Ffôn: 0845 330 2900 neu fe allwch ei lawrlwytho oddi ar wefan SGC yn [www.publicguardian.gov.uk](http://www.publicguardian.gov.uk)

## Part 11 – Correspondence address

**Please Note:** If this section is left blank, all correspondence will be sent to either the Donor if they are applying or to attorney one listed on the LPA2

This section of the form requests the address where all future correspondence during the registration process is to be sent. Please note that:

- The registered Lasting Power of Attorney is sent to this address;
- The DX details will usually only apply to solicitors;
- Telephone numbers and e-mail addresses should be completed where applicable.

This information is very important and care should be taken to ensure that it is completed with accuracy.

## Part 12 – Additional information

This section is for any additional information required. For instance if there are more than four attorneys (see Part 4), then the details should be entered here.

**If you need further help in completing the form, please phone 0845 330 2900**

**Please return completed forms to:**

Office of the Public Guardian  
Archway Tower  
2 Junction Road  
London  
N19 5SZ

**Further guidance on making a Lasting Power of Attorney or taking on the role of attorney is available giving information on how LPAs work and the responsibilities of the attorney.**

Copies can be obtained from:

Office of the Public Guardian  
Archway Tower  
2 Junction Road  
London  
N19 5SZ

Tel: 0845 330 2900 or download from the OPG website at [www.publicguardian.gov.uk](http://www.publicguardian.gov.uk)

